**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

**Rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020**

# Matrics Themâu Trawsbynciol

# Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 - 2020

Dyddiad: Mawrth 2020

Gwefan: https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-canllawiau-prosiectau?_ga=2.194034789.917460492.1583238260-397661037.1549273374 | E-bost:enquiries-wefo@wales.gov | Ffôn: 0845 010 3355
Fersiwn 6 Mawrth 2020

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ..... 2

Echel Flaenoriaeth 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy ..... 3

Echel Flaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf ..... 21

Echel Flaenoriaeth 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid ..... 37

Dwyrain Cymru ..... 54

Echel Flaenoriaeth 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy ..... 55

Echel Flaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf ..... 70

Echel Flaenoriaeth 3 – Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid ..... 85

ATODIAD ..... 101

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd – Cysylltiadau a Chyfeiriadau Gwybodaeth Defnyddiol ..... 101

Cod Eco ..... 104

Dogfen Fersiwn Rheoli Canllawiau CCT ..... 107

# Cyflwyniad

**DYLID DARLLEN Y CANLLAWIAU HYN AR Y CYD Â DOGFEN GYFARWYDDYD ALLWEDDOL THEMÂU TRAWSBYNCIOL CRONFA GYMDEITHASOL EWROP 2014-2020.**

## Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio o amgylch y blaenoriaethau yn y rhaglen, felly dim ond yr adran sy'n ymwneud â'r flaenoriaeth sy'n berthnasol i'ch gweithrediad y mae angen i chi ei darllen.

Y Themâu Trawsbynciol i'w hintegreiddio yn Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yng Nghymru yw: Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, yn cynnwys yr Iaith Gymraeg, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i gefnogi'r rhai sy'n datblygu 'gweithrediadau' a'r rheini sy'n asesu 'gweithrediadau' i ddeall sut y gellir integreiddio'r themâu trawsbynciol mewn gweithgarwch, gan roi manylion am y dangosyddion a'r targedau (lle y bo'n briodol) ar gyfer pob un o'r themâu trawsbynciol, ochr yn ochr â rhestr o'r mathau posibl o gamau gweithredu y dylid eu cymryd i alluogi'r themâu trawsbynciol i ychwanegu gwerth at nod cyffredinol y 'gweithrediad'.

**<u>CYFARWYDDIADAU AR GYFER DEFNYDDIO'R CANLLAWIAU.</u>**

Er mwyn helpu gweithrediadau (prosiectau yn flaenorol) i gyflawni ar y themâu trawsbynciol,  mae set o gamau gweithredu Penodol wedi'i chynnwys ar gyfer pob blaenoriaeth. Ni fydd pob cam gweithredu penodol yn berthnasol i bob gweithrediad. Dylech ddewis y rhai sy'n gweddu orau i'r gweithgaredd rydych yn gwneud cais am gyllid ar ei gyfer. Ceir set o gamau gweithredu generig hefyd, a gall y mwyafrif o weithrediadau gyfrannu at y rhain.

# Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
# Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop
# 2014 – 2020

# Echel Flaenoriaeth 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

**BLAENORIAETH BUDDSODDI:** Cynhwysiant gweithredol, gan gynnwys bwriad i hybu cyfle cyfartal a chyfranogi gweithredol, a gwella cyflogadwyedd.

**AMCAN PENODOL 1:** Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi.

**AMCAN PENODOL 2:** Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

**AMCAN PENODOL 3:** Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy.

| **Camau gweithredu penodol.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ap1, ap2 ac ap3 o dan Flaenoriaeth 1</u>**<br><br>• Datblygu rhaglenni iechyd yn y gweithle sy'n helpu pobl â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y gwaith a/neu gynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel ac yn gynt gan felly ostwng lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y cyflogai a'r cyflogwr<br><br><u>Er enghraifft:</u><br>• Gweithio cydgysylltiedig gyda chyflogwyr, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod datrysiadau derbyniol sy'n rhoi cymorth i fusnes gyflogi rhywun ag anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio a/neu helpu'r rhai ag anableddau neu gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn cyflogaeth. | **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob un o'r tri amcan penodol dan Flaenoriaeth 1</u>**<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaoedd ac i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu gweithgarwch addysg amgylcheddol arloesol.<br><br>• Wrth wneud hyn, dylai gweithgareddau ddarparu cyfleoedd i ddilyn cymwysterau amgylcheddol galwedigaethol neu academaidd pellach megis NVQ lefel 1-3. Yn eu tro gallai'r rhain arwain yn y pen draw at ennill cymwysterau ar lefel uwch a chael cyflogaeth yn sector yr economi rhad ar garbon, y sector nwyddau / gwasanaethau amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau. | **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag amcanion penodol 1 a 2 dan Flaenoriaeth 1</u>**<br><br>• Cymorth i bobl gamu i mewn i gyflogaeth gan gynnwys darparu cyngor ynghylch dysgu, cyfleoedd cyflogaeth a chwiliadau am swyddi. Mae'n bosibl na fydd rhai cyfranogwyr erioed wedi profi cyfnodau o ddiweithdra ac felly na fyddant yn ymwybodol o'u hopsiynau<br><br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau.<br><br>• Cymorth wedi'i dargedu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn dysgu gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol.<br><br>• Cymorth ar gyfer cynllun mentora ac eiriolaeth (efallai y bydd angen llai o gymorth ar gyfer y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur). |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Rhaglenni iechyd yn y gwaith megis Cymru Iach ar Waith[1] (rhan o raglen Iechyd yn y Gweithle Llywodraeth Cymru) neu raglen Iechyd ar Waith GIG Cymru[2]<br><br>• Cymorth ar gyfer ffyrdd iachach o fyw, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol<br><br>• Darparu gwasanaethau cymorth a/neu gyngor ar gyfer cyflogwyr ac ar gyfer unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a fydd yn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â, a/neu gyfranogi yn y farchnad waith ac mewn cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli.<br>Gweithio gyda grwpiau / mudiadau anabledd lleol er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf | • Gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr tuag at gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser. Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliadau megis LANTRA[5] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[6]. Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol. | • Targedu cymorth i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf, gan gynnwys ysgrifennu CV, cyrsiau sgiliau TGCh o lefel sylfaen ymlaen, gostwng nifer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (efallai y bydd angen llai o gymorth ar gyfer y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur).<br>• Dulliau arloesol o ddarparu mynediad at wasanaethau TG er mwyn hybu addysg a hyfforddiant.<br>• Darparu cymorth wedi'i deilwra er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolyn.<br><br>• Rhoi cymorth i unigolion sy'n derbyn y cyfle i wirfoddoli/mynychu lleoliadau gwaith. Gallai'r cymorth gynnwys:-<br>  ○ Sesiynau gwybodaeth yn amlygu disgwyliad y sefydliad / cyflogwr sy'n cymryd rhan;<br>  ○ Cefnogaeth yn ystod eu lleoliad, gwerthuso a phenodi mentor yn y lleoliad. |

[1] Cymru Iach ar Waith http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/hafan neu Iechyd yn y Gweithle Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/health/improvement/work/?skip=1&lang=cy
[2] 'Iechyd ar Waith' GIG Cymru http://www.wales.nhs.uk/iechydagwaith
[5] Lantra https://www.wales.lantra.co.uk/cy
[6] Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Er enghraifft, dileu rhwystrau ffisegol, gwneud addasiadau o ran hygyrchedd y gweithle, darparu deunyddiau hygyrch megis fersiynau Braille, sain neu mewn print bras<br><br>• Gweithio cydgysylltiedig ag ystod o asiantaethau sy'n cyflawni camau gweithredu i gefnogi'r broses bontio o fudd-daliadau i gyflogaeth, gan gynnwys:<br>- gwasanaethau eiriolaeth megis Cyngor Ar Bopeth;<br>- hyfforddiant ar hawliau cyflogaeth, gan gynnwys contractau dim oriau<br><br>• Os yw eich gweithrediad yn dewis Dangosydd sy'n ymwneud â rhwystrau cymhleth lle mae gan gyfranogwyr Gyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio, Anableddau, lle maent dros 54 oed, lle mae ganddynt anableddau gofal neu ofal plant, dylid eu cyfeirio at y wybodaeth a ddarperir yn yr adran camau gweithredu generig ar gyfer Blaenoriaeth 1. | • Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>○ Rheolaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli gwastraff<br>○ Cludiant<br>○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni | • Rôl ddynodedig â chyfrifoldeb am ganfod lleoliadau gwaith, sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o gyflogwyr yn chwarae rhan ac yn gefnogol a bod lleoliadau'n cynnig profiad gwaith gwerthfawr (sgiliau ymarferol) tra'n neilltuo amser bob wythnos i barhau i feithrin sgiliau hanfodol.<br><br>• Sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid i gefnogi ac annog cyfranogwyr yn ystod y lleoliad gwirfoddoli/gwaith gan ddatblygu 'dysgu rhwng cymheiriaid'.<br><br>• Darparu "Cronfa Rhwystrau" i gynorthwyo gyda chostau cludiant neu ofal plant; byddai'r gronfa hon ar gael am gyfnod cyfyngedig ac yn cael ei defnyddio i bontio'r bwlch rhwng eu diwrnod cyntaf o gyflogaeth a'u siec gyflog gyntaf ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn angen.<br><br>• Darparu cwrs sylfaen mewn cyllidebu ariannol gyda'r nod o sicrhau bod unigolyn yn meithrin gallu i reoli ei gyllid. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Rhoi cymorth a/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn barod. **(ap3 yn unig)**<br><br>• Cyflogi staff medrus o fewn eich gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yng nghynllun busnes eich gweithrediad<br><br>• Cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ar waith, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes a/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel a gytunwyd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) **(ap3 yn unig)** | | • 'Hyrwyddwr Dychwelyd i'r Gwaith' – unigolyn sydd wedi cael ei gyflogi ers peth amser a allai roi cymorth a chyngor y gellir uniaethu â hwy.<br>• Ystyried dulliau ymgysylltu perthnasol hy yr offer/y methodolegau cywir, 'bachyn' cychwynnol er mwyn denu cyfranogwr drwy'r drysau ac anghenion cymuned benodol neu grŵp penodol o bobl.<br><br>• Mae'n aml yn wir mai pobl â nodweddion gwarchodedig ee pobl anabl yw'r bobl sy'n profi'r tlodi mwyaf. Felly efallai mai'r ffordd orau o fynd ati i ymgysylltu ag unigolion sy'n profi tlodi fyddai ystyried y trawsgroesi naturiol rhwng camau gweithredu y cyfeirir atynt dan thema Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a'r rhai y cyfeirir atynt dan thema Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.<br><br>**<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol ap3 dan Flaenoriaeth 1</u>**<br>• Sefydlu cysylltiadau â meddygon teulu, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Datblygu ‘Gwiriadau Iechyd[3]’ ac offer Ar-lein[4] megis ‘Apiau’ i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu’r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo’i wneud nesaf i wella’r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio’r ‘camau mabwysiadu’ neu’r ‘gwelliant/ gwelliannau’ a wnaed. **(ap3 yn unig)** | | canolfannau cymuned/iechyd, grwpiau / sefydliadau cymorth lleol perthnasol a grwpiau BBaCh perthnasol er mwyn hyrwyddo gwasanaethau'r gweithrediad, sicrhau y caiff yr unigolion cyflogedig hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi neu o gael eu hallgáu o gyflogaeth gynaliadwy eu targedu'n llwyddiannus.<br><br>• Ar ôl i gyfranogwr gwblhau ei ymgysylltiad â'r gweithrediad, dylai'r buddiolwr ystyried yr angen i gyfeirio cyfranogwyr (lle y bo'n berthnasol), at lwybrau cymorth pellach llai ffurfiol hy grwpiau / sefydliadau lleol er mwyn sicrhau na fyddant yn cymryd cam yn ôl wrth droi cefn ar gymorth y gweithrediad.<br><br>• Ar gyfer y cyfranogwyr hynny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, dylid cymryd ystyriaethau ychwanegol. Wrth drefnu apwyntiadau, dylid ystyried lleoliad daearyddol cyfranogwr o ran ei allu i deithio i apwyntiad a'r amser teithio. Dylai'r buddiolwr ystyried yr angen am |

[3] WEFO cross cutting themes ‘Fact Sheets’ Please contact the CCT Team WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales
[4] WEFO cross cutting themes ‘Fact Sheets’ Please contact the CCT Team WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales

| **Camau gweithredu penodol.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | apwyntiadau wedi'u lleoli'n gyfleus yn ddaearyddol sy'n cyd-fynd lle y bo'n briodol â'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cymharol gyfyngedig sydd ar gael. Dylid ystyried cynnwys datrysiadau trafnidiaeth ymarferol ac arloesol<br><br>• Dylid monitro datblygiad cyfranogwyr rhwng ymyriadau gyda'r defnydd o ddulliau priodol er mwyn sicrhau y caiff cyfranogwyr eu cefnogi drwy gydol eu cyfnod gyda'r gweithrediad. |

| **Dangosyddion y Flaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **<u>Dangosyddion ar gyfer Amcanion Penodol 3:</u>**<br><br>• 'Mentrau a Gynorthwywyd' yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth **(ap3 yn unig)** | **<u>Dangosyddion ar gyfer Amcanion Penodol 1, 2 a 3 (ap1 / ap2 / ap3):</u>**<br><br>• 'Gweithrediadau' yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant. | **<u>Dangosyddion ar gyfer Amcanion Penodol 1, 2 a 3 (ap1 / ap2 / ap3):</u>**<br><br>• Nid yw'r dangosyddion hyn wedi'u pennu i thema drawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anabledd sydd mewn sefyllfa well o ran y farchnad lafur pan maent yn gadael fel mwy o oriau, contract parhaol (AP3)<br><br>• Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan maent yn gadael (AP2)<br><br>• Economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan maent yn gadael (AP2)<br><br>• Cyfranogwyr di-waith byrdymor sydd â sgiliau isel neu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn cyflogaeth pan maent yn gadael (AP1 ac AP2)<br><br>• Cyfranogwyr di-waith byrdymor sydd â sgiliau isel neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster pan maent yn gadael (AP1 ac AP2) |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Hŷn (54+ oed)**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi pobl hŷn sydd wedi bod yn ddi-waith yn y byrdymor a'r hirdymor i gyfranogi yn y farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[7], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran[8], Gweithio cydgysylltiedig gyda chyflogwyr, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod datrysiadau derbyniol sy'n rhoi cymorth i fusnes gyflogi rhywun ag anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio a/neu helpu'r rhai ag anableddau neu gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn cyflogaeth<br><br>• Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi menywod hŷn (54+ oed) sydd wedi bod yn ddi-waith yn y | | |

[7] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

[8] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| byrdymor a'r hirdymor i gyfranogi yn y farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[9], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran[10]<br><br>**Menywod:**<br>• Sefydlu gwasanaethau / systemau sy'n dileu rhwystrau i gyfranogiad menywod mewn cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli llawn-amser a rhan-amser, gan gynnwys, fel rhan o gamau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad a ddymunir i'r grŵp targed dynodedig ac sy'n seiliedig ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur, cyfranogiad cynyddol gan fenywod mewn cyfleoedd cyflogaeth/ hyfforddiant/ gwirfoddoli a phynciau addysgol/cyflawniad sy'n ymwneud â | | |

[9] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB
[10] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| phynciau STEM[11,12] (Gwyddoniaeth, Peirianneg, Technoleg a Mathemateg).<br><br>Er enghraifft: darparu a/neu hysbysu ynghylch cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant a gofal pobl hŷn, cyngor gyrfaoedd sy'n herio stereoteipiau o ran y rhywiau gan gynnwys cyflogaeth a/neu byncîau addysgol annhraddodiadol, cynnig ffyrdd arloesol o gynnwys menywod o bob oed mewn pynciau STEM[13,14] a chyfleoedd cyflogaeth sy'n ymwneud â phynciau STEM<br><br>**Cyfrifoldebau Gofalu**<br>• Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant a'r rhai â materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur. | | |

[11] Siarter Athena Swan – Datblygu Gyrfaoedd Menywod yn y pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
[12] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.163939007.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[13] Canllawiau STEM Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion a Cholegau yng Nghymru (disgyblion 3 i 19 oed) https://llyw.cymru/gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cholegau?_ga=2.230444828.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[15] a ffynonellau cymorth ariannol[16] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â'r farchnad lafur<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[17] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu | | |

[15] Llywodraeth Cymru 'Gofal Plant' https://llyw.cymru/gofal-plant-rhianta?_ga=2.205827603.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[16] Llywodraeth Cymru 'Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant?_ga=2.170691232.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[17] Swydfa dros Faterion Pobl Anabl, 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt. [18]<br><br>Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[19], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[20] | | |

[18] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

[19] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1

[20] Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Cod ymarfer hygyrchedd ar y we http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Ystyried ffyrdd o fynd ati'n effeithiol i dargedu, cynnwys ac annog Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ymgysylltu â'r farchnad lafur, er enghraifft: ystyried ffyrdd o sicrhau bod unigolion o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ymwybodol o'ch gweithrediad a'r hyn y mae'n ei gynnig.<br><br>Er enghraifft: cysylltu â mudiadau priodol sy'n cynrychioli Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i drafod ffyrdd effeithiol o'u targedu ac ymgysylltu â hwy a/neu ledaenu gwybodaeth<br><br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[21] | | |

[21] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**:<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[22,23]<br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, a fyddai'n arddangos arfer da. | | |

[22] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.189263595.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[23] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru: http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio - Ystyried y Gymraeg'[24]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, | | |

[24] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Cymorth ar gyfer datrysiadau arloesol i oresgyn rhwystrau o ran cludiant, gan gynnwys opsiynau ar gyfer gweithio gartref a hyfforddiant/oriau hyblyg.<br><br>• Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle. | | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[25] | | |

[25] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# Echel Flaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Blaenoriaeth Fuddsoddi Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir

**AMCAN PENODOL 1:** Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl

**AMCAN PENODOL 2:** Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.

**AMCAN PENODOL 3:** Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal.

**AMCAN PENODOL 4:** Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ap1, ap2, ap3 ac ap4 o dan Flaenoriaeth 2</u>**<br><br>• Sefydlu gwasanaethau / systemau sy'n dileu rhwystrau i gyfranogiad menywod mewn hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli llawn amser a rhan amser, ar gyfer amcanion penodol 1, 2 a 4 mae hyn yn cynnwys mwy o gyfranogiad mewn cyfleoedd hyfforddiant / gwirfoddoli a phynciau addysgol/cyflawniad sy'n ymwneud â phynciau STEM[26] (Gwyddoniaeth, Peirianneg, Technoleg a Mathemateg).<br><br>Er enghraifft: darparu a/neu hysbysu ynghylch cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant a gofal pobl hŷn, rhoi cyngor gyrfaoedd sy'n herio stereoteipiau o ran y rhywiau gan gynnwys cyflogaeth a/neu bynciau addysgol annhraddodiadol, cynnig ffyrdd arloesol o gynnwys menywod o | **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag AP 2.4 yn unig</u>**<br><br>• Datblygu a hyrwyddo strategaeth datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth datblygu cynaliadwy yn ysgogi arbedion economaidd, rheolaeth well a manteision amgylcheddol. O ran gwella strategaeth datblygu cynaliadwy bresennol mae'r canlynol yn gymwys hefyd:<br>  ◦ I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r prif fuddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol.<br>  ◦ Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a | **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol AP1 ac AP2 dan Flaenoriaeth 2</u>**<br><br>• Cymorth i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithwyr â sgiliau isel a'r rhai ac arnynt angen sgiliau generig i gamu ymlaen yn y farchnad lafur.<br><br>• Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr hŷn a'r rhai y mae angen iddynt wneud newidiadau yn eu gyrfa i'w helpu i barhau i fod yn economaidd weithgar.<br><br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau.<br><br>• Cymorth ar gyfer darpariaethau hyblyg i alluogi unigolion i gamu ymlaen mewn cyflogaeth hy cyfleoedd dysgu sy'n hygyrch ac yn berthnasol. |

[26] Siarter Athena Swan – Datblygu Gyrfaoedd Menywod mewn pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| bob oed mewn pynciau STEM[27,28,29] a chyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli sy'n ymwneud â phynciau STEM, cyfleoedd penodol i fenywod gyfranogi mewn mentrau datblygu megis 'Sbringfwrdd[30] - Menywod i Swyddi Rheoli'<br><br>• Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi menywod hŷn (54+ oed) i gyfranogi mewn cyfleoedd hyfforddi.<br><br>• Rhoi cymorth a/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn barod. **(ap4 yn unig)**<br><br>Er enghraifft:<br>• Cyflogi staff medrus o fewn eich gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd | gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br>• Mae templed enghreifftiol (a ddarperir yn yr atodiad) yn enghreifftio amrywiaeth o gamau gweithredu y dylai'r cod eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad sy'n noddi a byddent yn benodol i weithgareddau'r noddwr. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed.<br><br>• Datblygu 'Gwiriadau Iechyd' ac offer Ar-lein megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth datblygu cynaliadwy sydd gan fusnes a rhoi gwybod i'r busnes hwnnw yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau | • Cymorth ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu profi wrth geisio mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau â sgiliau uwch.<br><br>• Cymorth ar gyfer systemau sy'n codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg uwch gan gynnwys cynlluniau mentora a modelau rôl.<br><br>• Cymorth i'r rhai sydd mewn gwaith ac yn hunangyflogedig ddatblygu sgiliau lefel uwch.<br><br>• Cymorth i'r cyfranogwyr hynny sydd am wella eu sgiliau TGCh. Dylai'r cyrsiau ddarparu ar gyfer cyfranogwyr â phrofiad cyfyngedig a'r rhai ac arnynt angen gwella'u sgiliau i gamu ymlaen yn eu rôl yn y gwaith. Dylid datblygu dulliau arloesol wrth ddewis |

[27] Canllawiau STEM Llywodraeth Cymru i ysgolion a cholegau yng Nghymru (disgyblion 3 i 19 oed) https://llyw.cymru/gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cholegau?_ga=2.230444828.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

[29] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.163939007.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[30] Academi Cymru 'Springboard' https://academiwales.gov.wales/pages/springboard

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yng nghynllun busnes eich gweithrediad<br><br>• Cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ganddynt, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes a/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel a gytunwyd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) **(ap4 yn unig)**<br><br>• Datblygu 'Gwiriadau Iechyd[31], ac offer Ar-lein[32] megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, | cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau'.<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi â'r sgiliau sy'n ofynnol o fewn yr economi. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu gweithgarwch addysg amgylcheddol arloesol, gan ddarparu'r cymwysterau sy'n ofynnol o fewn sector yr economi rhad ar garbon, y sector nwyddau/gwasanaethau amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau.<br><br>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob un o'r amcanion penodol: | lleoliadau ac amseroedd (os yn berthnasol) i gynyddu nifer y cyfranogwyr i'r eithaf. |

[31] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cutting-guidance/factsheets/?skip=1&lang=cy
[32] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cutting-guidance/factsheets/?skip=1&lang=cy

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed **(ap4 yn unig)**.<br><br>Rhyw (Menywod / Dynion)<br>• Os yw eich gweithrediad yn dewis dangosydd sy'n ymwneud yn benodol â chyfranogwyr Benywaidd neu Wrywaidd, mae angen i chi ystyried sut y byddwch yn targedu cyfranogwyr sy'n fenywod / sy'n ddynion; rhoddir rhywfaint o wybodaeth yn yr adran ar gamau gweithredu generig ar gyfer Blaenoriaeth 2. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â:<br><br>- 'Cyfranogwyr cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig...' a;<br>- 'Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfwerth…'<br>**(AP1, AP2 AC AP3)** | • Gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr tuag at gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser. Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliadau megis LANTRA[33] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[34].<br><br>• Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol.<br><br>• Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>  ○ Rheolaeth amgylcheddol<br>  ○ Rheoli gwastraff<br>  ○ Cludiant | |

[33] Lantra: https://www.wales.lantra.co.uk/cy
[34] Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru: http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | ○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 4 dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi â'r sgiliau sy'n ofynnol o fewn yr economi. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu addysg amgylcheddol wedi'i thargedu ar gyfer **menywod** gan annog cyrsiau mewn sectorau annhraddodiadol.<br><br>• Gallai gweithgarwch prosiect arloesol sy'n amcanu at ysbrydoli a helpu pobl i gael gwaith **yn enwedig menywod** gyda'r nod o sicrhau dyfodol mwy disglair gynnwys darparu addysg amgylcheddol ar lefel mynediad. | |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Gallai hefyd ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod **menywod** yn cael eu hannog i wella eu sgiliau yn y sector gwyrdd megis rheoli gwastraff, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. | |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 4 (ap4)**<br><br>• 'Mentrau a Gynorthwywyd' yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth | **Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol AP4:**<br><br>• 'Mentrau a Gynorthwywyd' yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy.<br><br>Dangosydd ar gyfer pob un o'r pedwar amcan penodol:<br><br>• 'Gweithrediadau' yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant. | **Dangosydd ar gyfer Amcan Penodol 1 (ap1)**<br><br>Nid yw'r dangosyddion hyn wedi'u pennu i thema drawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Cyflogedig, yn cynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith pan maent yn gadael (dynion/menywod) (AP1) |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyflogedig, yn cynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig sydd â hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd is (ISCED 2) pan maent yn gadael (dynion/menywod) (AP2)<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 2 (ap2)**<br>• Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith pan maent yn gadael ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch (dynion/menywod) (AP2) |

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Anabl / Pobl â Chyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio**<br><br>• Darparu gwasanaethau cymorth a/neu gyngor ar gyfer cyflogwyr ac ar gyfer unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a fydd yn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â, a/neu gyfranogi mewn cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli i ennill sgiliau newydd neu sgiliau uwch. | | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Er enghraifft, dileu rhwystrau ffisegol, gwneud addasiadau o ran hygyrchedd y gweithle, darparu deunyddiau hygyrch megis fersiynau Braille, sain neu mewn print bras a gweithio gyda grwpiau / sefydliadau anabledd<br><br>**Pobl Hŷn (54+ oed)**<br>Gweithio gydag Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ogystal â busnesau i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi pobl hŷn i ennill sgiliau lefel uwch i gyfranogi / parhau i gyfranogi yn y farchnad lafur, gan gynnwys cyflogaeth am gyflog uwch/cyflogaeth fwy crefftus<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[35], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy’n rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy’n gysylltiedig ag oedran[36], gyda golwg ar gyfranogiad cynyddol ganddynt mewn ymyriadau sgiliau | | |

[35] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

[36] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi pobl hŷn i gaffael sgiliau newydd / lefel uwch, a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a gwirfoddoli ym maes arwain a rheoli.<br><br>**Cyfrifoldebau Gofalu**<br>• Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant a'r rhai â materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â hyfforddiant i ennill sgiliau newydd neu ar lefel uwch<br><br>Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[37] a ffynonellau cymorth ariannol[38] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chamu ymlaen yn y farchnad lafur | | |

[37] Llywodraeth Cymru, 'Gofal Plant' http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/?skip=1&lang=cy
[38] Llywodraeth Cymru 'Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant?_ga=2.170691232.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[39] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille<br>• o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliadau eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[40]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac | | |

[39] Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[40] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[41], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[42]<br><br>**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[43] | | |

---

[41] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1
[42] Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Cod ymarfer hygyrchedd ar y we http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
[43] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **<u>Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</u>:** Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[44,45]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, i arddangos arfer da. | | |

[44] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.189263595.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[45] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru: http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio - Ystyried y Gymraeg'[46]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, | | |

[46] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Cymorth ar gyfer datrysiadau arloesol i oresgyn rhwystrau o ran cludiant, gan gynnwys opsiynau ar gyfer gweithio gartref a hyfforddiant/oriau hyblyg.<br><br>• Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle. | | |

| **Camau Gweithredu Generig.** | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[47] | | |

[47] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# Echel Flaenoriaeth 3 - Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur mewn modd cynaliadwy, yn enwedig y rheini nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, yn cynnwy pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau wedi'u hymyleiddio, yn cynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid.

**AMCAN PENODOL 1:** Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio i mewn i addysg a hyfforddiant.

**AMCAN PENODOL 2:** Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.

**AMCAN PENODOL 3**: Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.

**AMCAN PENODOL 4**: Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ap1 ac ap2 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Gweithio gyda chyrff addysgol, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau AU ac AB (Addysg Uwch / Addysg Bellach), i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu, ysgogi a helpu pobl ifanc 'Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET i wireddu eu llawn botensial, gan gydnabod y dulliau gweithredu gwahanol y gall fod eu hangen ar gyfer dynion a menywod.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad / lleoliadau gwaith[48] neu wirfoddoli[49], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n herio stereoteipiau a menywod a dynion ifanc i mewn i feysydd pwnc annhraddodiadol, gan gynnwys pynciau STEM, mentrau sy'n helpu i | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob amcan penodol dan Flaenoriaeth 3**<br><br>**Camau gweithredu ar gyfer gweithio gyda Phobl ifanc.**<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaoedd ac i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu hyfforddiant addysg amgylcheddol wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc yn y sector amgylcheddol. Dylai gweithrediadau o'r fath ddarparu cyfleoedd i ddilyn cymwysterau amgylcheddol galwedigaethol neu academaidd pellach. | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol 1 a 2 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Cymorth i bobl ifanc gamu i mewn i gyflogaeth gan gynnwys darparu cyngor ynghylch cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth.<br><br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau.<br><br>• Cymorth wedi'i dargedu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn dysgu ee hyfforddiant galwedigaethol.<br><br>• Cymorth ar gyfer cynllun mentora ac eiriolaeth<br><br>• Targedu cymorth i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf ee ysgrifennu CV, cyrsiau sgiliau TGCh o lefel sylfaen ymlaen, |

[48] Wythnos Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/youth-work-week/?lang=cy
[49] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| atal pobl ifanc rhag dod yn NEET[50,51] (Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant),<br><br>**Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol ap3 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Gweithio gyda chyrff addysgol, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o ddarparu gwasanaethau sy'n targedu ac yn ysgogi pobl ifanc (11-19 oed) i ymgysylltu â Phynciau STEM<br><br>• Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli mewn meysydd a fyddai'n rhoi cymorth i bobl ifanc ymddiddori mewn pynciau / cyflogaeth sy'n gysylltiedig â STEM drwy wella'u dealltwriaeth am | • Llwybr arall fyddai darparu hyfforddiant sgiliau rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hannog i wella'u sgiliau yn y sector gwyrdd megis rheoli gwastraff, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. Er enghraifft, gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr i gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser.<br><br>• Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliadau megis LANTRA[54] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[55]. Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol. | gostwng nifer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (efallai y bydd angen llai o gymorth ar gyfer y rhai sy'n dal yn y system addysg ysgol).<br><br>• Dulliau arloesol o ddarparu mynediad at wasanaethau TG er mwyn hybu addysg a hyfforddiant.<br><br>• Darparu cymorth wedi'i deilwra er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolyn.<br><br>• Rhoi cymorth i unigolion sy'n derbyn y cyfle i wirfoddoli/mynychu lleoliadau gwaith. Gallai'r cymorth gynnwys:-<br><br>• Darparu sesiynau gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ac amlygu disgwyliad y sefydliad / cyflogwr sy'n cyfranogi;<br><br>• Cymorth yn ystod y lleoliad, arfarniad wedyn a phenodi mentor yn y lleoliad. |

50 Siarter Athena Swan – Datblygu gyrfaoedd menywod mewn pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
51 Canllawiau Llywodraeth Cymru 'Nodi'n Gynnar' http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/early-identification-guidance/?skip=1&lang=cy
54 http://www.lantra.co.uk/wales
55 http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| gymhwyso STEM yn ymarferol mewn amgylchedd heblaw'r ysgol<br><br>• Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad / lleoliadau gwaith[52] neu wirfoddoli[53]<br><br>**<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol ap4 dan Flaenoriaeth 3</u>**<br><br>• Gweithio gyda chyflogwyr a chyrff Addysg Bellach/Addysg Uwch i ddatblygu a/neu ddarparu cyfleoedd ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn y sectorau 'Blynyddoedd Cynnar' a 'Gofal Plant' i gaffael sgiliau lefel uwch<br><br>• Cymorth ar gyfer systemau sy'n herio stereoteipiau o ran menywod a dynion ac annog pobl i weithio mewn sectorau annhraddodiadol. | • Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>○ Rheolaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli gwastraff<br>○ Cludiant<br>○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni | • Rôl ddynodedig â chyfrifoldeb am ganfod lleoliadau gwaith, sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o gyflogwyr yn chwarae rhan ac yn gefnogol a bod lleoliadau'n cynnig profiad gwaith gwerthfawr (sgiliau ymarferol) tra'n neilltuo amser bob wythnos i barhau i feithrin sgiliau hanfodol.<br><br>• Sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid i gefnogi ac annog cyfranogwyr yn ystod y lleoliad gwirfoddoli/ gwaith gan ddatblygu 'dysgu rhwng cymheiriaid'.<br><br>• Darparu "Cronfa Rhwystrau" i gynorthwyo gyda chostau cludiant neu ofal plant; byddai'r gronfa hon ar gael am gyfnod cyfyngedig ac yn cael ei defnyddio i bontio'r bwlch rhwng eu diwrnod cyntaf o gyflogaeth a'u siec gyflog gyntaf ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn angen.<br><br>• 'Hyrwyddwr Dychwelyd i'r Gwaith' – unigolyn sydd wedi cael ei gyflogi ers peth amser a allai roi cymorth a chyngor y gellir uniaethu â hwy. |

[52] Wythnos Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/youth-work-week/?lang=cy
[53] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Ystyriaeth i ddulliau ymgysylltu perthnasol hy yr offer/y methodolegau cywir, 'bachyn' cychwynnol er mwyn denu cyfranogwr drwy'r drysau ac anghenion cymuned benodol neu grŵp penodol o bobl.<br><br>• Ymyriadau o ran arloesi sy'n sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc gan gynnwys y rhai sy'n wynebu anfanteision lluosog fynediad at ystod lawn o gyfleoedd galwedigaethol ac academaidd, gan gynnwys dysgu yn y gymuned.<br><br>• Cymorth ar gyfer ymyriadau penodol i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET gan gynnwys darpariaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned. Gallai mathau o weithgarwch gynnwys: gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, codi hyder, cyngor ac arweiniad, gwybodaeth ynghylch gyrfaoedd, hyfforddiant datblygu hyder a sgiliau a chyfrifoldeb cymdeithasol.<br><br>• Systemau sy'n cefnogi dysgu annibynnol. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Cymorth ar gyfer systemau asesu darpar gyfranogwyr sydd â'r nod o nodi llwybr ymgysylltu posibl, gan gynorthwyo i gymryd rhan yn y prosiect. Cyfleoedd profiad gwaith perthnasol neu gyfleoedd perthnasol ar gyfer diwrnodau rhagflas ynghyd ag ymweliadau wedi'u trefnu â'r colegau neu'r prifysgolion lleol<br><br>• Drwy ddarparu cymorth neu fentora gan gymheiriaid ar gyfer yr holl bobl ifanc ni waeth ble maent ar eu siwrne addysgol neu gyflogaeth gellid eu cynorthwyo i gyfranogi drwy gydol y gweithrediad ac yn y pen draw i gyrraedd eu nodau terfynol.<br><br>• Cymorth mentor o'r sector busnes lleol neu'r gymuned leol. Mae'n aml yn wir mai pobl â nodweddion gwarchodedig ee pobl anabl yw'r bobl sy'n profi'r tlodi mwyaf. Felly efallai mai'r ffordd orau o fynd ati i ymgysylltu ag unigolion sy'n profi tlodi fyddai ystyried y trawsgroesi naturiol rhwng camau gweithredu y cyfeirir atynt dan thema Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a'r rhai y cyfeirir atynt dan thema Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | **<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag amcan penodol 3 dan Flaenoriaeth 3</u>**<br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau cydweithio rhwng sectorau, sy'n annog pobl ifanc i ddewis astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).<br>• Darparu cyfleoedd penodol ar gyfer profiad gwaith ym maes STEM er mwyn dileu unrhyw ragdybiaethau na fyddai'r maes yma'n opsiwn ar gyfer gyrfa yn y maes pwnc yma yn y dyfodol.<br>**<u>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag amcan penodol 4 dan Flaenoriaeth 3</u>**<br>• Cymorth ar gyfer systemau sy'n codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg uwch, gan gynnwys cynlluniau mentora a modelau rôl.<br>• Cymorth i'r rhai mewn gwaith a pherchnogion busnes ddatblygu sgiliau lefel uwch. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Cymorth i bobl ifanc ddatblygu eu gyrfaoedd, yn enwedig mewn meysydd annhraddodiadol.<br>• Cymorth i godi lefelau llythrennedd, rhifedd a sgiliau TGCh y rhai mewn cyflogaeth.<br>• Cymorth ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau y mae unigolion yn eu profi wrth geisio mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth. |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd** | **Dangosyddion ar gyfer pob Amcan Penodol**<br><br>• 'Gweithrediadau' yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant. | Nid yw'r dangosyddion hyn wedi'u pennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond mae'n berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcanion Penodol 1, (ap1)**<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n dechrau cyflogaeth pan maent yn gadael (AP1)<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) mewn addysg/hyfforddiant pan maent yn gadael (AP1)<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n dechrau cyflogaeth pan maent yn gadael. (AP1)<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 2, (AP2):**<br><br>• Cyfranogwyr mewn perygl o ddod yn NEET (11-24 oed) sy'n dechrau cyflogaeth pan maent yn gadael (AP2) |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Cyfranogwyr mewn perygl o ddod yn NEET (11-24 oed) i mewn i addysg neu hyfforddiant pan maent yn gadael. (AP2)<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 3 (AP3);**<br><br>Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 (gwrywaidd/benywaidd) (AP3)<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 4 (AP4):**<br>• Cyfranogwyr cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig, o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau pan maent yn gadael (gwrywaidd/benywaidd (AP4) |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Cyfrifoldebau Gofalu**<br>• Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant a'r rhai â materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[56] a ffynonellau cymorth ariannol[57] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â'r farchnad lafur<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[58] a dwyieithog: | | |

[56] Llywodraeth Cymru ' Gofal Plant http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/?skip=1&lang=cy
[57] Llywodraeth Cymru 'Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant?_ga=2.170691232.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[58] Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Cymraeg/Saesneg neu;<br><br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[59]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny | | |

[59] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[60], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[61]<br><br>**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[62]<br><br>**Pobl Anabl / Pobl â Chyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio**<br>• Darparu gwasanaethau cymorth a/neu gyngor ar gyfer cyflogwyr ac ar gyfer unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i | | |

[60] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1
[61] Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Cod ymarfer hygyrchedd ar y we http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
[62] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| weithio a fydd yn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â, a/neu gyfranogi yn y farchnad waith ac mewn cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli. Er enghraifft, dileu rhwystrau ffisegol, gwneud addasiadau o ran hygyrchedd y gweithle, darparu deunyddiau hygyrch megis fersiynau Braille, sain neu mewn print bras a gweithio gyda grwpiau / sefydliadau anabledd<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a | | |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[63,64]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, i arddangos arfer da.<br><br>**Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio Ystyried y | | |

[63] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.189263595.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[64] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Gymraeg'[65]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle. | | |

[65] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg':
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau o bobl anabl.[66] | | |

[66] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# Dwyrain Cymru

# Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014 - 2020

# Echel Flaenoriaeth 1 - Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cynhwysiant Gweithredol, gan gynnwys gyda'r nod o hyrwyddo cyfle cyfartal a chyfranogiad gweithredol, a gwella cyflogadwyedd.

**AMCAN PENODOL 1:** Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **<u>Mae’r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 1 dan Flaenoriaeth 1:</u>**<br><br>• Gweithio cydgysylltiedig ag ystod o asiantaethau sy’n cyflawni camau gweithredu i gefnogi’r broses bontio o fudd-daliadau i gyflogaeth, gan gynnwys:<br>- gwasanaethau eiriolaeth megis Cyngor Ar Bopeth;<br>- hyfforddiant ar hawliau cyflogaeth, gan gynnwys contractau dim oriau<br><br>**Rhwystrau Cymhleth**<br><br>• Os yw eich gweithrediad yn dewis Dangosydd sy'n ymwneud â rhwystrau cymhleth lle mae gan gyfranogwyr Gyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio, Anableddau, lle maent dros 54 oed, lle mae ganddynt anableddau gofal neu ofal plant, dylid eu cyfeirio at y wybodaeth a ddarperir yn yr adran camau gweithredu generig ar gyfer Blaenoriaeth 1.<br><br>• | **<u>Mae’r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcan Penodol 1 dan Flaenoriaeth 1:</u>**<br><br>• Mae’n ofynnol i’r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi’r canlyniad gofynnol i’r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi’u harfogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaoedd ac i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu gweithgarwch addysg amgylcheddol arloesol.<br><br>• Wrth wneud hyn, dylai gweithgareddau ddarparu cyfleoedd i ddilyn cymwysterau amgylcheddol galwedigaethol neu academaidd pellach megis NVQ lefel 1-3. Yn eu tro gallai’r rhain arwain yn y pen draw at ennill cymwysterau ar lefel uwch a chael cyflogaeth yn sector yr economi rhad ar garbon, y sector nwyddau/gwasanaethau amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau. | **<u>Mae’r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag amcan penodol 1 dan Flaenoriaeth 1</u>**<br><br>• Cymorth i bobl gamu i mewn i gyflogaeth gan gynnwys darparu cyngor ynghylch dysgu, cyfleoedd cyflogaeth a chwiliadau am swyddi.<br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy’n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau.<br>• Cymorth wedi’i dargedu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn dysgu gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol.<br>• Cymorth ar gyfer cynllun mentora ac eiriolaeth.<br>• Targedu cymorth i ddatblygu sgiliau sy’n gysylltiedig â gwaith ar gyfer rhai sy’n ymuno â’r farchnad lafur am y tro cyntaf, gan gynnwys ysgrifennu CV, cyrsiau sgiliau TGCh o lefel sylfaen ymlaen, gostwng nifer y rhai sydd wedi’u hallgáu’n ddigidol.<br>• Dulliau arloesol o ddarparu mynediad at wasanaethau TG er mwyn hybu addysg a hyfforddiant.<br>• Darparu cymorth wedi’i deilwra er mwyn dileu’r rhwystrau i addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolyn. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Cymorth ar gyfer ffyrdd iachach o fyw, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | • Gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr tuag at gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser. Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliadau megis LANTRA[67] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[68].<br><br>• Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol. | • Rhoi cymorth i unigolion sy'n derbyn y cyfle i wirfoddoli/mynychu lleoliadau gwaith. Gallai'r cymorth gynnwys:-<br>○ sesiynau gwybodaeth yn amlygu disgwyliad y sefydliad / cyflogwr sy'n cymryd rhan;<br>○ cymorth yn ystod y lleoliad, arfarniad a phenodi mentor yn y lleoliad.<br>• Rôl ddynodedig â chyfrifoldeb am ganfod lleoliadau gwaith, sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o gyflogwyr yn chwarae rhan ac yn gefnogol, a bod lleoliadau'n cynnig profiad gwaith gwerthfawr (sgiliau ymarferol) tra'n neilltuo amser bob wythnos i barhau i feithrin sgiliau hanfodol.<br><br>• Sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid i gefnogi ac annog cyfranogwyr yn ystod y lleoliad gwirfoddoli/ gwaith gan ddatblygu 'dysgu rhwng cymheiriaid'.<br><br>• Darparu "Cronfa Rhwystrau" i gynorthwyo gyda chostau cludiant neu ofal plant; byddai'r gronfa hon ar gael am gyfnod cyfyngedig ac yn cael ei defnyddio i bontio'r bwlch rhwng eu diwrnod cyntaf o gyflogaeth a'u siec |

[67] http://www.lantra.co.uk/wales
[68] http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>○ Rheolaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli gwastraff<br>○ Cludiant<br>○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni | gyflog gyntaf ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn angen.<br>• Darparu cwrs sylfaen mewn cyllidebu ariannol gyda'r nod o sicrhau bod unigolyn yn meithrin gallu i reoli ei gyllid.<br>• Hyrwyddwr Dychwelyd i'r Gwaith' - unigolyn sydd wedi cael ei gyflogi ers peth amser a allai roi cymorth a chyngor y gellir uniaethu â hwy.<br>• Ystyriaeth i ddulliau ymgysylltu perthnasol hy yr offer/y methodolegau cywir, 'bachyn' cychwynnol er mwyn denu cyfranogwr drwy'r drysau ac anghenion cymuned benodol neu grŵp penodol o bobl.<br>• Mae'n aml yn wir mai pobl â nodweddion gwarchodedig ee pobl anabl yw'r bobl sy'n profi'r tlodi mwyaf. Felly efallai mai'r ffordd orau o fynd ati i ymgysylltu ag unigolion sy'n profi tlodi fyddai ystyried y trawsgroesi naturiol rhwng camau gweithredu y cyfeirir atynt dan thema Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a'r rhai y cyfeirir atynt dan thema Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes dangosyddion penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd.** | **Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 1 (ap1):**<br><br>• ‘Gweithrediadau’ yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant. | **Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 1 (ap1):**<br><br>Nid yw’r dangosyddion hyn wedi’u pennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond maent yn berthnasol i’r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi’r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n dechrau gweithio, gan gynnwys hunangyflogaeth pan maent yn gadael. (AP1)<br><br>• Economaidd anweithgar, (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n dechrau gweithio, gan gynnwys hunangyflogaeth, pan maent yn gadael. (AP1)<br><br>• Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan maent yn gadael. (AP1) |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith pan maent yn gadael. (AP1) |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Hŷn (54+ oed)**<br>• Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi pobl hŷn sydd wedi bod yn ddi-waith yn y byrdymor a'r hirdymor i gyfranogi yn y farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[69], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran[70], Gweithio cydgysylltiedig gyda chyflogwyr, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod datrysiadau derbyniol sy'n rhoi cymorth i fusnes gyflogi rhywun ag anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio a/neu helpu'r rhai ag anableddau neu gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn cyflogaeth<br><br>• Datblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi menywod hŷn (54+ oed) sydd wedi bod yn ddi-waith yn y byrdymor a'r hirdymor i gyfranogi yn y | | |

[69] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) https://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

[70] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[71], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran[72]<br><br>**Menywod:**<br>• Sefydlu gwasanaethau/systemau sy'n dileu rhwystrau i gyfranogiad menywod mewn cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli llawn amser a rhan amser, gan gynnwys, fel rhan o gamau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad a ddymunir i'r grŵp targed dynodedig ac sy'n seiliedig ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur, cyfranogiad cynyddol gan fenywod mewn cyfleoedd cyflogaeth/ hyfforddiant/ gwirfoddoli sy'n ymwneud â phynciau STEM[73,74] (Gwyddoniaeth, Peirianneg, Technoleg a Mathemateg) a phynciau/cyrhaeddiad addysgol.<br>Er enghraifft: darparu a/neu hysbysu | | |

[71] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB
[72] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/
[73] Siarter Athena Swan – Datblygu Gyrfaoedd Menywod mewn pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
[74] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.163939007.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ynghylch cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant a gofal pobl hŷn, cyngor gyrfaoedd sy'n herio stereoteipiau o ran y rhywiau gan gynnwys cyflogaeth a/neu bynciau addysgol annhraddodiadol, cynnig ffyrdd arloesol o gynnwys menywod o bob oed mewn pynciau STEM[75,76] a chyfleoedd cyflogaeth sy'n ymwneud â phynciau STEM<br><br>**Cyfrifoldebau Gofalu**<br>• Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant a'r rhai â materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur.<br><br>Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[77] a ffynonellau cymorth ariannol[78] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â'r farchnad lafur | | |

[75] Canllawiau STEM Llywodraeth Cymru i ysgolion a cholegau yng Nghymru (ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed) http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/stemguidance/?skip=1&lang=cy

[77] Llywodraeth Cymru 'Gofal Plant' https://llyw.cymru/gofal-plant-rhianta?_ga=2.205827603.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[78] Llywodraeth Cymru 'Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant?_ga=2.170691232.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[79] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt.[80]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu | | |

[79] Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php
[80] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[81], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[82]<br><br>**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Ystyried ffyrdd o fynd ati'n effeithiol i dargedu, cynnwys ac annog Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ymgysylltu â'r farchnad lafur, er enghraifft: ystyried ffyrdd o sicrhau bod unigolion o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ymwybodol o'ch gweithrediad a'r hyn y mae'n ei gynnig.<br><br>Er enghraifft: cysylltu â mudiadau priodol sy'n cynrychioli Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i drafod ffyrdd | | |

[81] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1
[82] Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Cod ymarfer hygyrchedd ar y we http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| effeithiol o'u targedu ac ymgysylltu â hwy a/neu ledaenu gwybodaeth<br><br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[83]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**:<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a | | |

[83] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[84,85]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, i arddangos arfer da<br><br>**Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio - Ystyried y | | |

84 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.189263595.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
85 Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Gymraeg'[86]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Cymorth ar gyfer datrysiadau arloesol i oresgyn rhwystrau o ran cludiant, gan gynnwys opsiynau ar gyfer gweithio gartref a hyfforddiant/oriau hyblyg.<br><br>• | | |

[86] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle.<br><br>• Ystyriwch y 'Symbol / system hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[87] | | |

[87] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# Echel Flaenoriaeth 2 – Sgiliau ar gyfer Twf

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Gwella mynediad cyfartal i ddysgu gydol oes ar gyfer pob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, gan uwchraddio gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu, a hyrwyddo llwybrau dysgu hyblyg gan gynnwys drwy arweiniad gyrfaol a dilysu cymwyseddau a gaffaelir.

**AMCAN PENODOL 1:** Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl.

**AMCAN PENODOL 2:** Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ymhob maes, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, camu ymlaen mewn gyrfa, cysoni gwaith a bywyd preifat a hyrwyddo cyflog cyfartal am waith cyfartal.

**AMCAN PENODOL 3:** Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ap1, ap02 ac ap03 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi menywod hŷn (54+ oed) o fewn y gweithlu i gyfranogi yn eich gweithrediad<br><br>• Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi menywod cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig, i ddarparu cyfleoedd iddynt gynyddu eu sgiliau i lefelau ISCED 2 neu ISCED 3<br><br>• Sefydlu gwasanaethau/systemau sy'n dileu rhwystrau i gyfranogiad menywod mewn cyflogaeth lawn-amser a rhan-amser, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a gwirfoddoli | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag AP1 yn unig dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Datblygu, hyrwyddo neu wella strategaeth datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth datblygu cynaliadwy yn ysgogi arbedion economaidd, rheolaeth well a manteision amgylcheddol. O ran gwella strategaeth datblygu cynaliadwy bresennol mae'r canlynol yn gymwys hefyd:<br><br>• I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r prif fuddiolwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol.<br><br>• Mae'r Cod Eco yn cael ei arddangos fel poster, ac yn nodweddiadol mewn ardal ganolog megis y ffreutur staff neu'r dderbynfa. Mae'r poster yn darparu cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol AP1 ac AP2 dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Cymorth i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithwyr â sgiliau isel a'r rhai ac arnynt angen sgiliau generig i gamu ymlaen yn y farchnad lafur.<br><br>• Cymorth i'r cyfranogwyr hynny sydd am wella eu sgiliau TGCh. Dylai'r cyrsiau ddarparu ar gyfer cyfranogwyr â phrofiad cyfyngedig a'r rhai ac arnynt angen gwella'u sgiliau i gamu ymlaen yn eu rôl yn y gwaith. Dylid datblygu dulliau arloesol wrth ddewis lleoliadau ac amseroedd (os yn berthnasol) i gynyddu nifer y cyfranogwyr i'r eithaf.<br><br>• Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr hŷn a'r rhai y mae angen iddynt wneud newidiadau yn eu gyrfa i'w helpu i barhau i fod yn economaidd weithgar.<br><br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Er enghraifft: darparu a/neu hysbysu ynghylch cymorth sydd ar gael ar gyfer gofal plant a gofal pobl hŷn, herio stereoteipiau o ran y rhywiau gan gynnwys cyflogaeth a/neu bynciau addysgol annhraddodiadol, cynnig ffyrdd arloesol o gynnwys menywod o bob oed mewn pynciau STEM[88,89,90] a chyfleoedd cyflogaeth sy'n ymwneud â phynciau STEM[91], cyfleoedd penodol i fenywod gyfranogi mewn mentrau datblygu megis 'Sbringfwrdd[92] - Menywod i Swyddi Rheoli'<br><br>Rhyw (Menywod / Dynion)<br>• Os yw eich gweithrediad yn dewis dangosydd sy'n ymwneud yn benodol â chyfranogwyr Benywaidd neu Wrywaidd, mae angen i chi ystyried sut y byddwch yn targedu cyfranogwyr sy'n fenywod / sy'n ddynion; rhoddir rhywfaint o wybodaeth yn yr adran ar gamau gweithredu generig ar gyfer Blaenoriaeth 2. Mae hyn yn cynnwys | ynni, arbed dŵr ac ysgogi trefniadau gwell ar gyfer rheoli gwastraff.<br>• Mae templed enghreifftiol (a ddarperir yn yr atodiad) yn enghreifftio amrywiaeth o gamau gweithredu y dylai'r cod eco eu hyrwyddo. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y sefydliad sy'n noddi a byddent yn benodol i weithgareddau'r noddwr. Darperir rhai awgrymiadau generig ar y templed.<br>• Datblygu 'Gwiriadau Iechyd' ac offer Ar-lein megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth datblygu cynaliadwy fusnes a rhoi gwybod i'r busnes hwnnw yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed | • Cymorth ar gyfer darpariaethau hyblyg i alluogi unigolion i gamu ymlaen mewn cyflogaeth hy cyfleoedd dysgu sy'n hygyrch ac yn berthnasol.<br><br>• Cymorth ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu profi wrth geisio mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau â sgiliau uwch.<br><br>• Cymorth ar gyfer systemau sy'n codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg uwch gan gynnwys cynlluniau mentora a modelau rôl.<br><br>• Cymorth i'r rhai sydd mewn gwaith ac yn hunangyflogedig ddatblygu sgiliau lefel uwch. |

[88] Siarter Athena Swan – Datblygu Gyrfaoedd Menywod mewn pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
[89] Canllawiau STEM Llywodraeth Cymru i ysgolion a cholegau yng Nghymru (disgyblion 3 i 19 oed) https://llyw.cymru/gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cholegau?_ga=2.230444828.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

[91] Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth https://llyw.cymru/adroddiad-menywod-mewn-gwyddoniaeth-technoleg-peirianneg-mathemateg-stem?_ga=2.163939007.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[92] Academi Cymru 'Springboard' https://academiwales.gov.wales/pages/springboard

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| dangosyddion sy'n ymwneud â<br>- Cyfranogwyr cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig...' a;<br>- 'Cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfwerth…'<br>**(AP1, AP2 ac AP3)**<br><br>• Rhoi cymorth a/neu gyngor i gyflogwyr/mentrau/sefydliadau i naill ai 'mabwysiadu' neu 'wella' strategaeth neu system monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth neu 'wella'r' strategaeth neu'r system fonitro sydd ganddynt yn barod. **(ap3 yn unig)**<br><br>Er enghraifft:<br>• Cyflogi staff medrus o fewn eich gweithrediad i gwrdd â'r dangosydd hwn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach eraill o ran cyfle cyfartal a restrir yng nghynllun busnes eich gweithrediad<br><br>• cael llinell sylfaen o ran pa strategaethau a systemau monitro ar gyfer cyfle cyfartal sydd ganddynt, os oes rhai ganddynt o gwbl, a gweld a ydynt yn gyfoes a/neu a oes angen iddynt gynnwys meysydd megis gweithio hyblyg, bwlio ac aflonyddu, | (cyfeirier at droednodyn rhif 63 isod i gael rhagor o wybodaeth).<br><br>Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â gweithgarwch o dan pob cam gweithredu penodol:<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi â'r sgiliau sy'n ofynnol o fewn yr economi. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu gweithgarwch addysg amgylcheddol arloesol, gan ddarparu'r cymwysterau sy'n ofynnol o fewn sector yr economi rhad ar garbon, y sector nwyddau/gwasanaethau amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau.<br><br>• Gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr tuag at gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser. Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth | |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| polisi ar y Gymraeg, polisi hyfforddiant a datblygiad staff, bod y Strategaeth Cydraddoldeb yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel a gytunwyd gan aelod penodol o staff (uwch aelod o staff megis Cyfarwyddwr/Aelod o'r Bwrdd) **(ap3 yn unig)**<br><br>• Datblygu 'Gwiriadau Iechyd[93]' ac offer Ar-lein[94] megis 'Apiau' i gael llinell sylfaen o ran pa strategaeth / gwybodaeth cyfle cyfartal sydd gan fusnes a hysbysu'r busnes hwnnw ynghylch yr hyn y mae angen iddo'i wneud nesaf i wella'r sefyllfa honno, gan roi cymorth uniongyrchol i gyflawni hyn neu ddarparu templedi a deunyddiau cyfeirio a fydd yn ei alluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno i chi i wirio'r 'camau mabwysiadu' neu'r 'gwelliant/ gwelliannau' a wnaed **(ap3 yn unig)** | amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliad fel LANTRA[95] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[96].<br><br>• Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol.<br><br>• Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>○ Rheolaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli gwastraff<br>○ Cludiant<br>○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni | |

[93] WEFO cross cutting themes 'Fact Sheets' Please contact the CCT Team WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales
[94] WEFO cross cutting themes 'Fact Sheets' Please contact the CCT Team WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales
[95] http://www.lantra.co.uk/wales
[96] http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag AP2 dan Flaenoriaeth 2**<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn achosi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi â'r sgiliau sy'n ofynnol o fewn yr economi. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu addysg amgylcheddol wedi'i thargedu ar gyfer **menywod** gan annog cyrsiau mewn sectorau annhraddodiadol.<br><br>• Gallai gweithgarwch prosiect arloesol sy'n amcanu at ysbrydoli a helpu pobl i gael gwaith **yn enwedig menywod** gyda'r nod o sicrhau dyfodol mwy disglair gynnwys darparu addysg amgylcheddol ar lefel mynediad.<br><br>• Gallai hefyd ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod **menywod** yn cael eu hannog i wella eu sgiliau yn y sector gwyrdd megis rheoli gwastraff, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. | |

<table>
<tr><th colspan="3">Dangosyddion y Flaenoriaeth</th></tr>
<tr><th>Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:</th><th>Datblygu Cynaliadwy:</th><th>Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:</th></tr>
<tr>
<td>Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 3 (ap3);<br><br>• ‘Mentrau a Gynorthwywyd’ yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro.</td>
<td>Dangosydd ar gyfer Amcanion Penodol 1 a 2 (ap1 ac ap2):<br><br>• ‘Mentrau a Gynorthwywyd’ yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy.<br><br>Dangosydd ar gyfer pob amcan penodol o dan flaenoriaeth 2:<br><br>• ‘Gweithrediadau’ yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant.</td>
<td>Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 1 (ap1):<br><br>Nid yw’r dangosyddion hyn wedi’u pennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond maent yn berthnasol i’r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi’r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>• Cyflogedig, yn cynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith pan maent yn gadael (dynion/menywod) (AP1)<br><br>• Cyflogedig, yn cynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig sydd â hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n meithrin sgiliau hanfodol neu'n ennill cymhwyster technegol neu benodol i waith ar lefel uwchradd is (ISCED 2) pan maent yn gadael (dynion/menywod) (AP2)</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 2 (ap2):**<br><br>• Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (ISCED 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i waith pan maent yn gadael ar lefel uwchradd uwch (ISCED 3) neu uwch (dynion/menywod) (AP2) |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Hŷn (54+ oed)**<br>• Gweithio gydag Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ogystal â busnesau i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu ac ysgogi pobl hŷn i ennill sgiliau lefel uwch i gyfranogi / parhau i gyfranogi yn y farchnad lafur, gan gynnwys cyflogaeth am gyflog uwch/cyflogaeth fwy crefftus<br><br>• Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad/lleoliadau gwaith neu wirfoddoli[97], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n | | |

[97] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.gwirfoddolicymru.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| rhoi cymorth i bobl hŷn oresgyn problemau iechyd sy’n gysylltiedig ag oedran[98], gyda golwg ar gyfranogiad cynyddol ganddynt mewn ymyriadau sgiliau<br><br>**Pobl Anabl / Pobl â Chyflyrau Iechyd sy’n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio**<br>• Darparu gwasanaethau cymorth a/neu gyngor ar gyfer cyflogwyr ac ar gyfer unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio a fydd yn dileu rhwystrau sy’n eu hatal rhag ymgysylltu â, a/neu gyfranogi yn y farchnad waith a chyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli.<br><br>Er enghraifft, dileu rhwystrau ffisegol, gwneud addasiadau o ran hygyrchedd y gweithle, darparu deunyddiau hygyrch megis fersiynau Braille, sain neu mewn print bras a gweithio gyda grwpiau / sefydliadau anabledd<br><br>**Cyfrifoldebau Gofalu**<br>Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys y rhai sy’n gofalu am blant a’r rhai â | | |

[98] Menopause Self Care (Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Lloegr) http://www.menopauseselfcare.org.uk/

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chamu ymlaen yn y farchnad lafur.<br><br>• Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[99] a ffynonellau cymorth ariannol[100] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chamu ymlaen yn y farchnad lafur<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[101] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata. | | |

[99] Llywodraeth Cymru 'Gofal Plant' https://llyw.cymru/gofal-plant-rhianta?_ga=2.205827603.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[100] Llywodraeth Cymru ' Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/help-paying-for-childcare/?skip=1&lang=cy
[101] Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliadau eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[102]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno | | |

[102] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| - Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[103], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[104]<br><br>**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[105]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i | | |

[103] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1
[104] Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) Cod ymarfer hygyrchedd ar y we http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388
[105] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[106,107]<br><br>• Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, i arddangos arfer da.<br><br>**Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas | | |

[106] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth https://llyw.cymru/cynllunio-strategaeth-cydraddoldeb?_ga=2.189263595.1100266084.1584372565-631954825.1556280598
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol l https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales
[107] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio - Ystyried y Gymraeg'[108]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy | | |

[108] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle.<br><br>• Ystyriwch y ‘Symbol / system hyderus o ran anabledd’ sy’n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a’r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[109] | | |

[109] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# Echel Flaenoriaeth 3 – Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Integreiddio pobl ifanc yn y farchnad lafur mewn modd cynaliadwy, yn enwedig y rheini nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, yn cynnwy pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a phobl ifanc o gymunedau wedi'u hymyleiddio, yn cynnwys drwy weithredu'r Warant Ieuenctid.

**AMCAN PENODOL 1:** Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).

**BLAENORIAETH FUDDSODDI:** Gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar a'i atal a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg plentyndod cynnar, addysg gynradd ac addysg uwchradd o ansawdd da gan gynnwys llwybrau dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer ailintegreiddio i mewn i addysg a hyfforddiant.

**AMCAN PENODOL 2:** Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol ap1 ac ap2 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Gweithio gyda chyrff addysgol, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau AU ac AB (Addysg Uwch / Addysg Bellach), i ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o dargedu, ysgogi a helpu pobl ifanc 'Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET i wireddu eu llawn botensial, gan gydnabod y dulliau gweithredu gwahanol y gall fod eu hangen ar gyfer dynion a menywod.<br><br>Er enghraifft: gwasanaethau cymorth a chynghori, profiad / lleoliadau gwaith[110] neu wirfoddoli[111], cyflenwi neu ddarparu cyngor ynghylch gwasanaethau sy'n herio stereoteipiau a menywod ifanc a dynion ifanc i mewn i feysydd pwnc | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud â phob amcan penodol dan flaenoriaeth 3:**<br><br>**Camau Gweithredu ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc.**<br><br>• Mae'n ofynnol i'r holl weithrediadau ddylunio camau gweithredu a fydd yn rhoi'r canlyniad gofynnol i'r grŵp targed dynodedig, gan ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau bod cyfranogwyr wedi'u harfogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaoedd ac i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Un ffordd o sefydlu thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy o fewn gweithgarwch fyddai darparu gweithgarwch addysg amgylcheddol penodol i bobl ifanc yn y sector amgylcheddol. Dylai gweithrediadau o'r fath ddarparu cyfleoedd i ddilyn cymwysterau amgylcheddol | **Mae'r camau gweithredu canlynol yn ymwneud ag Amcanion Penodol 1 a 2 dan Flaenoriaeth 3**<br><br>• Cymorth i bobl ifanc gamu i mewn i gyflogaeth gan gynnwys darparu cyngor ynghylch cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth.<br><br>• Cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i drosglwyddo eu sgiliau yn enwedig i feysydd lle mae prinder sgiliau.<br><br>• Cymorth wedi'i dargedu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn dysgu ee hyfforddiant galwedigaethol.<br><br>• Cymorth ar gyfer cynllun mentora ac eiriolaeth.<br><br>• Targedu cymorth i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro |

[110] Wythnos Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/youth-work-week/?lang=cy
[111] Gwefan Gwirfoddoli Cymru http://www.volunteering-wales.net/ a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.wcva.org.uk/volunteering?seq.lang=cy-GB

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| annhraddodiadol, gan gynnwys pynciau STEM[112,113], Mentrau sy'n helpu i atal pobl ifanc rhag dod yn NEET,[114] (Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), | galwedigaethol neu academaidd pellach.<br><br>• Llwybr arall fyddai darparu hyfforddiant sgiliau rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hannog i wella'u sgiliau yn y sector gwyrdd megis rheoli gwastraff, cadwraeth ac ynni adnewyddadwy. Er enghraifft, gall hyfforddiant sgiliau mewn rheolaeth amgylcheddol ddarparu llwybr i gyflogaeth gynaliadwy yn y sector amgylcheddol sy'n tyfu drwy'r amser.<br><br>• Darperir hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru gan sefydliadau megis LANTRA[115] a Chanolfan Busnes Gwyrdd Cymru[116]. | cyntaf, ee ysgrifennu CV a chyrsiau sgiliau TGCh o lefel sylfaen ymlaen, gostwng nifer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.<br><br>• Cefnogi'r rhai sy'n dymuno gwella'u sgiliau TGCh gan ddefnyddio proses ymgysylltu sy'n cofleidio'r ofnau a'r pryderon y gall cyfranogwr posibl fod yn eu teimlo os yw'n newydd i ddysgu digidol. Dylai'r cyrsiau ddarparu ar gyfer cyfranogwyr sy'n amrywio o'r rhai nad ydynt erioed wedi defnyddio cyfrifiadur i'r rhai y mae angen iddynt wella'u sgiliau i gamu ymlaen yn eu rôl yn y gwaith. Dylid datblygu dulliau arloesol wrth ddewis lleoliadau ac amseroedd (os yn berthnasol) i gynyddu nifer y cyfranogwyr i'r eithaf.<br><br>• Dulliau arloesol o ddarparu mynediad at wasanaethau TG er mwyn hybu addysg a hyfforddiant. |

112 Siarter Athena Swan – Datblygu gyrfaoedd menywod mewn pynciau STEM http://www.ecu.ac.uk/equality-charter-marks/athena-swan/
113 Llywodraeth Cymru, Menywod mewn gwyddoniaeth, adroddiad 'Menywod dawnus ar gyfer Cymru lwyddiannus' http://gov.wales/topics/science-and-technology/science/women-in-science/?skip=1&lang=cy
114 Canllawiau Llywodraeth Cymru 'Nodi'n Gynnar' http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/early-identification-guidance/?skip=1&lang=cy
115 http://www.lantra.co.uk/wales
116 http://www.walesgreenbusinesscentre.co.uk/

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | • Mae LANTRA yn darparu cyrsiau mewn cadwraeth amgylcheddol sy'n arwain, er enghraifft, at Ddiploma Cenedlaethol mewn rheolaeth amgylcheddol.<br><br>• Mae Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru yn darparu ystod o fathau o gymorth i fusnesau integreiddio arferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithrediadau pob dydd. Maent yn darparu ystod o gyrsiau rheolaeth amgylcheddol dan y categorïau canlynol:<br>○ Rheolaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli gwastraff<br>○ Cludiant<br>○ Deddfwriaeth amgylcheddol<br>○ Rheoli llygredd<br>○ Ynni adnewyddadwy<br>○ Rheoli ynni | • Darparu cymorth wedi'i deilwra er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolyn.<br><br>• Rhoi cymorth i unigolion sy'n derbyn y cyfle i wirfoddoli/mynychu lleoliadau gwaith.<br><br>Gallai'r cymorth gynnwys:-<br>○ darparu sesiynau gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ac amlygu disgwyliad y sefydliad / cyflogwr sy'n cyfranogi;<br>○ cymorth yn ystod y lleoliad, arfarniad wedyn a phenodi mentor yn y lleoliad.<br><br>• Rôl ddynodedig â chyfrifoldeb am ganfod lleoliadau gwaith, sicrhau bod ystod eang ac amrywiol o gyflogwyr yn chwarae rhan ac yn gefnogol a bod lleoliadau'n cynnig profiad gwaith gwerthfawr (sgiliau ymarferol) tra'n neilltuo amser bob wythnos i barhau i feithrin sgiliau hanfodol.<br><br>• Sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid i gefnogi ac annog cyfranogwyr yn ystod y lleoliad gwirfoddoli/ gwaith gan ddatblygu 'dysgu rhwng |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | **<u>Cam gweithredu generig yn ymwneud â'r amcanion penodol:</u>**<br><br>• **Annog pobl ifanc i gyflawni rôl fel hyrwyddwr.** Bydd y person ifanc penodol hwn yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy ac yn datblygu gweithgareddau sy'n ymwneud â'r maes pwnc.<br><br>• Drwy roi'r cyfle i bobl ifanc ymwneud â datblygu cynaliadwy, bydd hyn yn cynnig ymdeimlad o berchnogaeth a balchder mewn sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn 'gweithrediad' a hefyd yn eu hardal leol. | cymheiriaid'.<br><br>• Darparu "Cronfa Rhwystrau" i gynorthwyo gyda chostau cludiant neu ofal plant; byddai'r gronfa hon ar gael am gyfnod cyfyngedig ac yn cael ei defnyddio i bontio'r bwlch rhwng eu diwrnod cyntaf o gyflogaeth a'u siec gyflog gyntaf ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn angen.<br><br>• 'Hyrwyddwr Dychwelyd i'r Gwaith' - unigolyn sydd wedi cael ei gyflogi ers peth amser a allai roi cymorth a chyngor y gellir uniaethu â hwy.<br><br>• Ystyriaeth i ddulliau ymgysylltu perthnasol hy yr offer/y methodolegau cywir, 'bachyn' cychwynnol er mwyn denu cyfranogwr drwy'r drysau ac anghenion cymuned benodol neu grŵp penodol o bobl.<br><br>• Ymyriadau o ran arloesi sy'n sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc gan gynnwys y rhai sy'n wynebu anfanteision lluosog fynediad at ystod lawn o gyfleoedd galwedigaethol ac academaidd, gan gynnwys dysgu yn y gymuned. |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | • Cymorth ar gyfer ymyriadau penodol i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET gan gynnwys darpariaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned.  Gallai mathau o weithgarwch gynnwys: gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, codi hyder, cyngor ac arweiniad, gwybodaeth ynghylch gyrfaoedd, hyfforddiant datblygu hyder a sgiliau a chyfrifoldeb cymdeithasol.<br><br>• Systemau sy'n cefnogi dysgu annibynnol.<br><br>• Cymorth ar gyfer systemau asesu darpar gyfranogwyr sydd â'r nod o nodi llwybr ymgysylltu posibl.<br><br>• Gellid cynnig profiad gwaith perthnasol neu gyfleoedd perthnasol ar gyfer diwrnodau rhagflas ynghyd ag ymweliadau wedi'u trefnu â'r colegau neu'r prifysgolion lleol.<br><br>• Drwy ddarparu cymorth neu fentora gan gymheiriaid ar gyfer yr holl bobl ifanc ni waeth ble maent ar eu siwrne addysgol neu gyflogaeth gellid eu |

| Camau gweithredu penodol. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | cynorthwyo i gyfranogi drwy gydol y gweithrediad ac yn y pen draw i gyrraedd eu nodau terfynol.<br><br>• Cymorth mentor o'r sector busnes lleol neu'r gymuned leol.<br><br>• Mae’n aml yn wir mai pobl â nodweddion gwarchodedig ee pobl anabl yw’r bobl sy’n profi’r tlodi mwyaf. Felly efallai mai’r ffordd orau o fynd ati i ymgysylltu ag unigolion sy’n profi tlodi fyddai ystyried y trawsgroesi naturiol rhwng camau gweithredu y cyfeirir atynt dan thema Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a’r rhai y cyfeirir atynt dan thema Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Nid oes camau gweithredu penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd** | **Dangosydd ar gyfer pob amcan penodol dan flaenoriaeth 3:**<br><br>• 'Gweithrediadau' yn integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant. | Nid yw'r dangosyddion hyn wedi'u pennu i Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ond maent yn berthnasol i'r Rhaglen yn gyffredinol. Fodd bynnag, maent yn caniatáu i weithrediadau ddangos sut y mae gweithgarwch yn cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.<br><br>**Dangosyddion ar gyfer Amcan Penodol 1 (ap1):**<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n dechrau cyflogaeth pan maent yn gadael (AP1)<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) mewn addysg/hyfforddiant pan maent yn gadael. (AP1)<br><br>• Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) sy'n dechrau cyflogaeth pan maent yn gadael. (AP1) |

| Dangosyddion y Flaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| | | **<u>Dangosyddion ar gyfer Amcanion Penodol 2 (ap2 ):</u>**<br><br>• Cyfranogwyr mewn perygl o ddod yn NEET (11-24 oed) sy’n ennill cymwysterau pan maent yn gadael) (AP2)<br><br>• Cyfranogwyr mewn perygl o ddod yn NEET (11-24 oed) i mewn i addysg/hyfforddiant pan maent yn gadael. (AP2) |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Anabl / Pobl â Chyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio**<br>• Darparu gwasanaethau cymorth a/neu gyngor ar gyfer cyflogwyr ac ar gyfer pobl ifanc ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a fydd yn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â, a/neu gyfranogi mewn addysg a datblygiad yn y farchnad waith, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli.<br><br>Er enghraifft, dileu rhwystrau ffisegol, gwneud addasiadau o ran hygyrchedd y gweithle, darparu deunyddiau hygyrch megis fersiynau Braille, sain neu mewn print bras a gweithio gyda grwpiau / sefydliadau anabledd<br><br>**Cyfrifoldebau Gofalu**<br>• Canfod, datblygu a/neu ddarparu cymorth ar gyfer unigolion â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gofalu am blant a phobl ifanc â materion gofal pobl hŷn gyda golwg ar eu galluogi i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur. | | • |

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Er enghraifft: darparu neu helpu i ganfod cyfleusterau gofal plant fforddiadwy[117] a ffynonellau cymorth ariannol[118] a fydd yn galluogi unigolion i ymgysylltu â'r farchnad lafur<br><br>**Iaith / Hygyrchedd**<br>• Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau hygyrch[119] a dwyieithog:<br>- Cymraeg/Saesneg neu;<br>- yn yr iaith gymunedol briodol os targedir grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir<br>- fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata.<br><br>Er enghraifft:<br>- Cymhwyso canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' yn eich sefydliad eich hun ac i'ch partneriaid cyflenwi ac ymlynu | | |

[117] Llywodraeth Cymru 'Gofal Plant' https://llyw.cymru/gofal-plant-rhianta?_ga=2.205827603.1822671839.1583743669-631954825.1556280598
[118] Llywodraeth Cymru ' Cymorth i Dalu am Ofal Plant' https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/help-paying-for-childcare/?skip=1&lang=cy
[119] Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| wrth eich Cynllun Iaith Gymraeg chi eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech ddod yn ddarostyngedig iddynt[120]<br><br>- Cynllunio sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad yw eich sefydliad yn gallu darparu ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg, dylech ystyried cynnwys partneriaid cyflenwi eraill a all wneud hynny<br><br>- Sicrhau y bydd contractwyr a phartneriaid cyflenwi'n gallu ymwneud â chi yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno<br><br>- Egluro'r hyn sydd a'r hyn nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau drwy gyfeirio at sefydliadau megis RNIB Cymru[121], 'cod ymarfer' hygyrchedd gwefannau'r Sefydliad Safonau Prydeinig[122] | | |

[120] Gwneud cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf

[121] RNIB Cymru http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1

[122] British Standards Institute (BSI) Web accessibility code of practice http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030180388

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| **Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br>• Herio stereoteipiau ac, os yw Saesneg yn ail iaith i unigolyn, dylid cynnig hyfforddiant / deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol priodol neu ddarparu mynediad at / cyflenwi ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)[123]<br><br>**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**<br>• Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wedi'i bwriadu i helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu tuag at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.<br><br>• Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a | | |

[123] Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi?_ga=2.168724129.1822671839.1583743669-631954825.1556280598

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| lliniaru effeithiau anffafriol posibl.[124,125]<br><br>Gall sefydliadau nad yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol iddynt hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail wirfoddol, i arddangos arfer da<br><br>**Recriwtio**<br>• Sicrhau bod pob cyfle recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Mae hefyd angen i'r Gweithrediad gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg, er enghraifft: Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yr angen i gadw nifer addas o staff sy'n siarad Cymraeg drwy gydol oes y Gweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth yn ogystal â'r gallu i recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Comisiynydd Iaith Gymraeg 'Recriwtio - Ystyried y | | |

[124] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/equality-impact-assessments
[125] Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| Gymraeg'[126]<br><br>• Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu a sicrhau y caiff prosesau recriwtio allanol eu cefnogi os yw'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae gan sefydliadau bolisïau y mae rheolwyr ac undebau llafur wedi cytuno arnynt, dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol. Gellir hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi y cytunwyd arno. Lle na chredir y bydd yn bosibl llenwi'r swydd wag yn fewnol, dylid hefyd hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol, leol ac arbenigol, sefydliadau'r trydydd sector a gwefannau eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy.<br><br>• Cymorth ar gyfer datrysiadau arloesol i oresgyn rhwystrau o ran cludiant, gan gynnwys opsiynau ar gyfer gweithio gartref a hyfforddiant/oriau hyblyg. | | |

[126] Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio – Ystyried y Gymraeg': http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/20160308%20%20GC%20C%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20%28T%29%20%282%29.pdf

| Camau Gweithredu Generig. | | |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** | **Datblygu Cynaliadwy:** | **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** |
| • Hybu perchnogaeth ar gyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, yn cynnwys hybu / ystyried yr iaith Gymraeg drwy greu rôl hyrwyddwr cyfle cyfartal a lle y bo'n berthnasol, annog hyn ym mhob agwedd ar weithgarwch y gweithle.<br><br>• Ystyriwch y 'System / symbol hyderus o ran anabledd' sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i annog ceisiadau gan bobl anabl.[127] | | |

[127] DWP Two-Tick: https://www.gov.uk/recruitment-disabled-people/encouraging-applications

# ATODIAD
# Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd – Cysylltiadau a Chyfeiriadau Gwybodaeth Defnyddiol

**Pobl Hŷn:**
Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023[128], Yr Adran Gwaith a Phensiynau – Helping people to find and stay in work[129], Taflenni Ffeithiau themâu trawsbynciol WEFO' cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

**Menywod:**
Prosiect W.A.V.E.[130], Cenedl Hyblyg[131], STEM Cymru[132], Chwarae Teg[133],, Women Like Us[134], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru [135]

**Pobl Anabl / Cyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu Pobl i Weithio:**
Anabledd Cymru[136], Mynediad i Waith[137], Rhaglen Dewis Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau[138], Rhwydwaith Ewropeaidd Hybu Iechyd yn y Gweithle[139], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF[140], cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru, Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol[141]

[128] Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23 http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?skip=1&lang=cy
[129] DWP 'Helping older people who want to find or stay in work' https://www.gov.uk/government/policies/helping-people-to-find-and-stay-in-work/supporting-pages/helping-older-people-who-want-to-find-or-stay-in-work
[130] Prosiect W.A.V.E (Menywod yn Ychwanegu Gwerth i'r Economi) https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/women-adding-value-to-the-economy-wave
[131] Cenedl Hyblyg 2 http://www.agilenation2.org.uk/
[132] STEM Cymru 2 http://www.stemcymru.org.uk/cy/
[133] Chwarae Teg https://www.cteg.org.uk/cy/gwefan-newydd-chwarae-teg/
[134] Women Like Us (London) http://www.womenlikeus.org.uk/
[135] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[136] Anabledd Cymru http://www.disabilitywales.org/
[137] Mynediad i Waith https://www.gov.uk/access-to-work/overview
[138] DWP 'Work Choice Programme https://www.gov.uk/work-choice/overview
[139] Rhwydwaith Ewropeaidd Hybu Iechyd yn y Gweithle http://www.enwhp.org
[140] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru
[141] Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?lang=cy

**Cyfrifoldebau Gofalu:**
Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF, cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru [142]

**Iaith a Hygyrchedd:**
Strategaeth y Gymraeg 2012-2017, Cymraeg 2050' gan Lywodraeth Cymru[143], Taflenni Ffeithiau themâu trawsbynciol WEFO' WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig:**
Mae'r sefydliadau'n cynnwys: Cyngor Ffoaduriaid Cymru[144], Chwarae Teg[145], Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru [146]

**Pobl Ifanc:**
Taflen Ffeithiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal dan raglenni ESF[147]
Y Ddraig Ffynci: Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru https://funkydragon.org/

**Mabwysiadu neu Wella Strategaethau a Systemau Monitro Cydraddoldeb:**
SEREN[148]

---

[142] Mae 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO yn amlygu sut mae prosiectau wedi cyflawni yn erbyn amrywiaeth o Ddangosyddion cyfle cyfartal ac ymrwymiadau ehangach megis: cyflawni i unigolion â Nodweddion Gwarchodedig, Cymalau Cymdeithasol/Cymunedol, NEET, Grwpiau Agored i Niwed, meysydd neu waith/astudiaeth anhraddodiadol, Hygyrchedd, yr Iaith Gymraeg WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[143] Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2017 'Cymraeg 2050' https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy

[144] Cyngor Ffoaduriaid Cymru http://welshrefugeecouncil.org.uk

[145] Chwarae Teg https://www.cteg.org.uk/cy/gwefan-newydd-chwarae-teg/

[146] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[147] 'Taflenni Ffeithiau' themâu trawsbynciol WEFO WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

[148] Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth SEREN http://grc.engineering.cf.ac.uk/research/seren/resources/products/2/

**Ffeithluniau Themâu Trawsbynciol:**

Mae'r Tîm Themâu Trawsbynciol wedi datblygu a pharhau i ddatblygu ffeithluniau astudiaethau achos sy'n dangos yr arferion da sydd ar waith mewn perthynas â Themâu Trawsbynciol yn rhaglenni 2014-2020. cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru:

WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru

Mae cyfres o daflenni ffeithiau hefyd ar gael sy'n dangos sut y caiff gweithrediadau eu cyflawni yn erbyn ystod o ddangosyddion datblygu cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal yn rhaglenni 2007-2013.

Cysylltwch â'r Tîm Trawsbynciol WEFOCrossCuttingThemes@llyw.cymru i gael y taflenni ffeithiau hyn

# Cod Eco

Set o ymddygiadau yw'r Cod Eco sydd wedi'u bwriadu i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol a rhannu gwybodaeth amgylcheddol ymhlith staff a defnyddwyr adeilad a/neu sefydliad. Mae'r Cod Eco (a arddangosir fel arfer gan ddefnyddio posteri) yn rhoi cynghorion ymarferol a gwybodaeth i atgoffa ynglŷn ag arbed ynni, dŵr ac adnoddau. Mae'r templed enghreifftiol canlynol yn dangos y math o gamau gweithredu y dylai'r cod eco eu hybu. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y prif fuddiolwr a byddent yn benodol i weithgareddau'r prif fuddiolwr. Fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu awgrymedig wedi'u cynnwys yn y templed.

| | Atal, Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn atal, arbed, atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu i leihau gwastraff i'r eithaf lle bynnag y bo'n bosibl. |
| Camau Gweithredu | • Prynu eitemau â lefelau isel / sero o ddeunydd pacio;<br>• Ailgylchu'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys papur, metelau, gwydr, plastig a bwyd;<br>• Compostio eitemau darfodus priodol. |

| | Cludiant |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn ceisio eich annog i deithio mewn ffyrdd mwy eco-gyfeillgar pan fyddwch yn dod i'n gweld! Yn yr un modd, bydd busnes y sefydliad yn cael ei gynnal drwy'r dull cludiant mwyaf amgylcheddol gynaliadwy sydd ar gael. |
| Camau Gweithredu | • Lleihau'r angen i deithio lle y bo'n bosibl drwy ddefnyddio TGCh;<br>• Defnyddio, hyrwyddo a gwella cludiant cyhoeddus lle bynnag y bo'n bosibl;<br>• Defnyddio Fideogynadledda a Thelegynadledda;<br>• Rhannu cerbydau lle bynnag y bo'n bosibl |

| | Prynu |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn prynu cynhyrchion a deunyddiau nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd wrth gael eu gwneud neu eu defnyddio. |
| Camau Gweithredu | • Prynu cynhyrchion a ailddefnyddir/a ailgylchwyd lle bynnag y bo'n bosibl;<br>• Amcanu at gyflawni Lefel 3 yn y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy ar y cyfan a Lefel 5 mewn o leiaf un maes. |

| | Dŵr |
|---|---|
| Cod Eco | Byddwn yn arbed dŵr lle bynnag y bo'n bosibl. |
| Camau Gweithredu | • Diffodd tapiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio;<br>• Gosod mesurau arbed dŵr megis tapiau â chyfyngiad amser, systemau ailgylchu 'dŵr llwyd'*, toiledau dwrlif deuol, awyryddion dŵr ar bob tap sinc a dyfeisiau arbed dŵr mewn sestonau toiledau. |

| | Ynni |
|---|---|
| Cod Eco | Rydym yn amcanu at ddefnyddio llai o ynni ac yn eich dysgu chi sut i arbed ynni! |
| Camau Gweithredu | • Diffodd yr holl wresogyddion/goleuadau pan nad oes mo'u hangen;<br>• Defnyddio rheolyddion gwresogi i adweithio'n gyflym i wahanol anghenion gwresogi dyddiol;<br>• Gosod mesurau inswleiddio effeithiol, cau pob drws/ffenestr yn y gaeaf;<br>• Tanysgrifio i gwmni ynni gwyrdd megis Good Energy sy'n gallu cael trydan gwyrdd 100%;<br>• Gosod cyfleusterau ynni adnewyddadwy lle y bo'n bosibl, megis gwresogyddion dŵr solar. |

| | |
|---|---|
| | # Bioamrywiaeth |
| Cod Eco | Byddwn yn ceisio cynyddu bioamrywiaeth y safle a'i amgylchoedd. |
| Camau Gweithredu | • Ymgynghori â grwpiau bywyd gwyllt lleol ynghylch mynd ati'n effeithiol i annog bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn eich ardal. |

| | |
|---|---|
| | # Codi Ymwybyddiaeth |
| Cod Eco | Byddwn yn hysbysu ein holl ymwelwyr a'r cyhoedd sut yr ydym yn gofalu am ein hamgylchedd a gobeithio y byddant hwythau'n gwneud yr un modd gartref! Er enghraifft: Hysbysiadau a gwybodaeth i'w hatgoffa o amgylch y ganolfan, hyrwyddo ein hunain i'r cyfryngau lleol a darparu gwybodaeth ar ein gwefan |
| Camau Gweithredu | • Gosod hysbysiadau a phosteri amlwg o amgylch adeilad y sefydliad;<br>• Darparu gwybodaeth ar y wefan ac mewn llenyddiaeth. |

# Dogfen Fersiwn Rheoli Canllawiau CCT

Dyddiad: Mawrth 2020

**Log Diweddaru Dogfen Matrics ESF**

| Rhif Tudalen | Newid a wnaed | Rheswm |
|---|---|---|
| **Generig** | | **Mae'r newidiadau Cyfle Cyfartal isod i gyd wedi'u gwneud yn y fersiwn Gymraeg** |
| Clawr blaen | Diweddaru rhif y fersiwn a'r dyddiad | Diweddaru canllawiau a dolenni gwe |
| Pob tudalen | Newid 'fersiwn 3 Ionawr 2017' i ' fersiwn 4: Ionawr 2018' | Troedyn tudalen – fersiwn newydd o'r dudalen |
| 153 | Ffeithlun | Ychwanegu testun a dolen URL |
| EO a GM | | |
| 7, 8, 9, 80, 81, 82 | Dileu'r testun am Ddangosyddion Trawsbynciol | Cyfeirio at y Porth Arloesi Clyfar |
| 12, 85 | Ychwanegu testun | Proses Atgyfeirio Arloesi Clyfar a Dangosyddion Trawsbynciol |
| 10, 59, 83, 133 | Cynnwys troednodyn a dolen at adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' Llywodraeth Cymru | |
| 15, 36, 52, 67, 88, 107, 125, 141 | Diweddaru'r derminoleg o 'O blaid pobl anabl' i'r symbol ar gyfer hyder o ran anableddau | |
| 15, 37, 53, 68, 88, 108, 126, 141 | Dileu'r cyfeiriad at ddogfen 'Grantiau, benthyciadau a nawdd' Comisiynydd y Gymraeg | Cynnwys y canllawiau newydd 'Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. |
| 58, 133 | Dolen at y cerdyn sgorio Menywod mewn TG | Ddiweddaru i ddangos dogfen 2016 |
| Drwy gydol | EQUIA yn lle EIA (yn y fersiwn Saesneg) | Adlewyrchu newidiadau o ran yr Amgylchedd a Chydraddoldeb |
| Atodiad | Diweddaru'r cyfeiriad at gysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol, a'r dolenni gwe | |
| 153 | Ffeithlun a thaflen ffeithiau | Testun wedi'i olygu |

| DATBLYGU CYNALIADWY | | |
|---|---|---|
| 7, 8, 9, 80, 81, 82 | Dileu'r testun am Ddangosyddion Trawsbynciol | Cyfeirio at y Porth Arloesi Clyfar |
| 12, 85 | Ychwanegu testun | Proses atgyfeirio Arloesi Clyfar a Dangosyddion Trawsbynciol |
| 13,34,35,47,48,67,106, 121,122,124,140 | Dileu’r cyfeiriad at Hyrwyddwr Datblygu Cynaliadwy | Dileu er mwyn adlewyrchu’r newid i ddefnyddio Hyrwyddwr Trawsbynciol generig yn lle themâu unigol. Pob cyfeiriad wedi’i ddileu o’r fersiwn Gymraeg) |
| 46 | Gwefan Trwyddedu Morol wedi newid | Diweddaru’r ddolen URL (y fersiwn Gymraeg wedi’i newid i adlewyrchu’r Saesneg) |
| 69,88,115,142 | Newidiadau BREEAM | Dileu'r testun i adlewyrchu newidiadau yng nghanllawiau BREEAM newydd Llywodraeth Cymru. (Y fersiwn Gymraeg wedi’i newid i adlewyrchu’r Saesneg) |